

## Gwers 4: Cestyll Consentrig

### Nod y Wers: Adnabod nodweddion Cestyll Consentrig a thrafod pam eu bod yn effeithiol



Tasg 1: Disgrifiwch y lluniau o'r cestyll consentrig uchod gan roi'r geirfa yma yn y frawddegau isod:

**waliau trwchus, ffos, uchel, ymosod**


- Yn y cestyll consentrig mae yna.....
- Roedd yna nifer o dyrrau (towers) ..... ar safle'r cestyll.
- Roedd yna ..... o amgylch rhai cestyll.
- Roedd hi'n anodd iawn i ..... ar y cestyll.

Yn y tabl, nodwch nodweddion (features) tebyg a gwahanol gestyll mwnt a beili, cestyll cerrig a chestyll Consentrig. Gosodwch y brawddegau yma yn y golofn berthnasol:

- Adeiladwyd waliau i amddiffyn (defend) cestyll
- Roedd y cestyll yn gallu pydru (rot)
- Cafodd waliau cestyll mwnt a beili eu gwneud o bren ond cafodd cestyll cerrig a chestyll consentrig eu gwneud o gerrig.
- Roedd yna ffos (moat) o gwmpas nifer o gestyll.
- Roeddent yn hawdd i losgi (burn)

TEBYG ( <i>similar</i> )	GWAHANOL ( <i>different</i> )

Yn dilyn rhyfel y Croesgadau, datblygwyd cestyll gwahanol. Daeth milwyr o'r rhyfel hwnnw (yn y dwyrain canol) a syniadau i Brydain sef y cestyll consentrig.



Ystyr y gair consentrig yw un cylch y tu mewn i gylch arall, roedd hyn yn cyfeirio at waliau'r castell hwn. Roedd y gorthwr (prif adeilad) yng nghanol y castell ac wedi'i amgylchynu (surrounded) gan waliau trwchus iawn ac uchel â thyllau cornel crwn. Y tu allan i hyn roedd y beili allanol â wal trwchus crwn arall ar gyfer amddiffyn (defend). Er mwyn rhoi rhagor o amddiffyniad ychwanegwyd ffos fel arfer.

**Lefel Efydd:** Disgrifiwch beth oedd prif nodweddion (features) cestyll consentrig gan orffen y brawddegau isod.

Roedd waliau'r cestyll.....

Roedd y gorthwr yng nghanol y castell ac wedi'i amgylchynu gan .....

I roi rhagor o amddiffyniad i'r castell roedd yna.....

Y castell cyntaf ym Mhrydain i gael ei adeiladu yn yr arddull (style) hwn oedd Caerffili yn Ne Cymru. Cymerodd mwy o amser i frenhinoedd Lloegr sefydlu rheolaeth yng Ngogledd Cymru ond sicrhodd Brenin Edward I hyn ar ol 1283. Gwnaeth hynny drwy adeiladu cyfres o gestyll consentrig enfawr, a oedd bron yn amhosib i ymosod arnynt. Adeiladwyd cestyll Rhaglan, Biwmares, Caernarfon, Conwy a Harlech i gyd gan Edward I i sicrhau ei rym yng Nghymru. Gweithiodd mwy na 2,000 o lafurwyr (workers) ar Gastell Biwmares.

**Lefel Arian:** Esboniwch pa neges (message) oedd Edward I yn ceisio anfon (send) i'r Cymry wrth adeiladu'r cestyll gan lenwi'r brawddegau isod gyda'r termau canlynol:

enfawr (massive)                      gogledd,                      dychryn (scare),                      de,

Roedd Edward I eisiau.....pobl Cymru gan adeiladu'r cestyll yma yn y ..... ac yn y ..... Roedd y cestyll yn ..... a phwrpas Edward oedd i reoli'r Cymry yn llym.

